Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Head Teacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ **01443 219580** 🖷 **01443 219596**
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk

4 Ebrill 2014

Annwyl Riant /Warchodwr,

Cf: Amserlen arholiadau a threfniadau

Bydd gwersi arferol a sesiynau adolygu penodol yn rhedeg hyd at **23.5.14** ond fel y gwelir mae'r arholiadau yn cychwyn ar y **12.5.14**. Os yw eich plentyn yn dilyn cwrs BTEC bydd hwn yn rhedeg hyd at ddiwedd Mehefin heblaw bod y gwaith wedi ei gwblhau cyn hynny.

Disgwylir i'ch plentyn i **fynychu'r ysgol bob dydd hyd at 23.5.14** ac ar ôl hynny disgwylir i'ch plentyn fynychu'r ysgol am ei arholiadau yn unig.

Os dymunir eich plentyn ddod mewn i weld athrawon yn ystod y cyfnod yma (2.6.14 ymlaen) bydd ei athrawon ar gael yn ei ystafelloedd dysgu (cofiwch siecio'r amserlen o flaen llaw - wythnos 1 neu 2).

Cynhelir y rhan fwyaf o'r arholiadau yn y neuadd chwaraeon. Gweler yr amserlen bersonol am fanylion pellach.

A wnewch chi sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 8.30 a.m. ar gyfer arholiadau bore neu 12 p.m. am arholiadau prynhawn.
D.S. Os oes problem ynglŷn â'ch plentyn yn cyrraedd yn hwyr, a wnewch chi gysylltu â'r ysgol mor fuan ag sy'n bosib a gofyn i siarad gyda'r Swyddog Arholiadau Ms Sam Chidgey.

Os na fydd eich plentyn yn gallu mynychu arholiad, a wnewch chi gysylltu â'r ysgol cyn gynted â phosib a sicrhau bod **tystysgrif feddygol** yn cael ei gasglu mor fuan ag sy'n bosib.

Os oes unrhyw broblemau/cwestiynau, plîs cysylltwch yn syth â Mrs. Price trwy ffon neu e-bost pricemairwen@campwsgartholwg.org.uk .

Yn gywir,

M.Price (Mrs)